

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodyn Cyfarfod – 14 Hydref 2016, Merthyr Tudful

Yn bresennol

Cadeirydd

Andrew Jacobs (AJ) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Charlotte Anscombe (CA) Uned Cynhwysiant Ariannol
Laurie Davies (LD) Trechu Tlodi
Helen Freese (HF) Llywodraeth Cymru, Addysg
Erika Helps (EH) Uned Cynhwysiant Ariannol
Kathryn Markey (KM) Uned Cynhwysiant Ariannol

Aelodau / Dirprwyo dros Aelodau

Joe Allen (JA) Swyddog Polisi ABCUL Cymru
Farida Aslam (FA) Tai Sir Fynwy
Jonathan Brenchley (JB) Cysylltiadau Corfforaethol Cymru a Gorllewin Lloegr,
Banc Barclays
Danielle Cope Gweithredu dros Blant
Leanne Herberg (LH) Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Rhian Hughes (RH) Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol, Canolfan
Cydweithredol Cymru
Craig Lane (CL) Cyngor ar Bopeth Cymru
Paul Langley (PL) Tai Cymunedol Cymru
Helen Matthews (HM) Adran Gwaith a Phensiynau (Rhaglen Credyd
Cynhwysol)
Sean O'Neill (SO'N) Plant yng Nghymru
Jayne Simpson (JS) Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli Tony
Kirk)
Iwan Williams (IW) Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn

Ysgrifenyddiaeth

Jan Morgan (JM) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau am absenoldebau

Ian Albert (IA) Adran Gwaith a Phensiynau
Elizabeth Emmons (EE) Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru
Rhys Evans (RE) Aelod annibynnol
Tony Kirk (TK) Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli
buddiannau Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli
Troseddwyr Cymru)
Lisa Hayward (LH) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Geraint Willington (GW) Consortiwm Addysg
Lee Phillips (LP) Gwasanaeth Cyngori Ariannol (MAS)
Blod Lewis (BL) Banc Barclays
Beverley Morgan Llywodraeth Cymru, Trechu Tlodi

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodyn Cyfarfod – 14 Hydref 2016, Merthyr Tudful

Karl Thomas (KT)

Pat McCarthy (PMc)

Llywodraeth Cymru, Is-adran Polisi Tai

Llywodraeth Cymru, Addysg (Pynciau Craidd y Cwricwlwm)

1. Croeso a chyflwyniadau

- 1.1 Croesawodd AJ yr aelodau i gyfarfod cynta'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol (Grŵp Llywio) gan ddiolch i bawb am ddod ar fyr rybudd. Estynnodd AJ groeso i Jayne Simpson a oedd yn dirprwyo ar ran Tony Kirk, Helen Freese ar ran Pat McCarthy a Laurie Davies ar ran Beverley Morgan. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ian Albert, Elizabeth Emmons, Rhys Evans, Tony Kirk, Lisa Hayward, Lee Phillips, Blod Lewis, Geraint Willington a Karl Thomas.
- 1.2 Esboniodd AJ fod sawl newid wedi digwydd ers y tro diwethaf i'r grŵp gyfarfod cyn cyhoeddi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ym mis Mawrth. Cafodd y Rhaglen Lywodraethu newydd, 'Symud Cymru Ymlaen', ei chyhoeddi'n ddiweddar. Roedd ein gwaith cynhwysiant ariannol yn rhan o elfen 'Ffyniannus a Diogel' y ddogfen. Amlinellwyd newidiadau diweddar i'r Is-adran Cymunedau, gydag Amelia John yn cymryd lle Eleanor Marks, Angharad Richards yn cymryd lle Paul Dear ac AJ yn cymryd lle Chris Gittins fel pennaeth yr unedau Cynhwysiant Digidol a Chynhwysiant Ariannol.
- 1.3 Gwahoddodd AJ aelodau newydd y Grŵp Llywio i gyflwyno'u hunain ac amlinellu eu safbwyntiau penodol nhw ar yr agenda cynhwysiant ariannol yng Nghymru.

2. Trafodaeth a chytundeb ar Gylch Gorchwyl arfaethedig y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol

- 2.1 Cyflwynodd KM grynodedb o'r cynnydd a fu ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol gyntaf, "Mae pawb yn cyfrif" yng Ngorffennaf 2009. Esboniwyd bod y Gweinidog dros Gymunedau a Phlant wedi cytuno i newid aelodaeth a chylch gorchwyl arfaethedig y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol sydd bellach yn Grŵp Llywio, er mwyn i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflawni a monitro'r cynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Strategaeth.
- 2.2 Gwnaed ymrwymiad i lunio cynllun cyflawni erbyn mis Rhagfyr 2016, er mwyn parhau â'n nod cyffredin o helpu i leihau achosion o eithrio ariannol a gorddyledion yng Nghymru. Esboniodd KM fod llawer o sylwadau adeiladol wedi dod i law gan randdeiliaid amrywiol mewn digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus. Byddai'r rhain naill ai'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni neu eu defnyddio i lywio cynnwys y cynllun. Bydd y Cynllun Cyflawni yn cynnwys cysylltiadau â strategaethau perthynol eraill er mwyn osgoi ailadrodd, a'r Grŵp Llywio hwn fydd y prif fodd o sicrhau hyn.
- 2.3 Eglurodd KM mai'r bwriad oedd cael aelodaeth lawn o'r Grŵp Llywio, a fydd yn cyfarfod fel bo'r angen yn ystod 2016 (dau neu dri chyfarfod fwy na

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodyn Cyfarfod – 14 Hydref 2016, Merthyr Tudful

thebyg), er mwyn adolygu'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol a chytuno arno. Yna, bydd y grŵp craidd yn cyfarfod hyd at deirgwaith y flwyddyn er mwyn adolygu cynnydd y Cynllun Cyflawni.

- 2.4 Esboniodd KM y byddai grŵp estynedig o aelodau hefyd, ac y gellid galw ar ei aelodau i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Llywio er mwyn ymateb i bapurau cyn cyfarfod o aelodau'r Grŵp Llywio craidd neu gyfrannu at grwpiau gorchwyl a gorffen er mwyn i'w harbenigedd yn ychwanegu gwerth. Bydd holl aelodau'r grŵp estynedig yn llysgenhadon hefyd dros hyrwyddo cynhwysiant ariannol a galluogrwydd ariannol o fewn eu sectorau eu hunain, ac yn gallu codi materion yn rhagweithiol.
- 2.5 Yn ogystal â'r aelodau craidd ac estynedig, dywedodd KM fod sawl sefydliad yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar fater cynhwysiant ariannol, a gallai hynny fod ar ffurf is-setiau h.y. Undebau Credyd, materion plant. Dywedodd KM y byddwn yn galw am gymorth fel bo'r angen gan yr Uned Cynhwysiant Ariannol ac/neu holl aelodau'r Grŵp Llywio a fydd yn cytuno ar y Cynllun Cyflawni a'i gymeradwyo.
- 2.6 Gofynnodd KM am sylwadau ar y Cylch Gorchwyl arfaethedig. Esboniodd bod rhai sylwadau eisoes wedi'u derbyn am bwynt bwled 2, a oedd yn cyfeirio at atebion cynaliadwy lle mae angen cydnabod bod angen i unrhyw syniadau ac atebion newydd fod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Cafwyd trafodaeth fer am gylch gorchwyl y grŵp ar gyfer ymgysylltu'n ehangach, aelodaeth y grŵp, cyfathrebu â phartneriaid/aelodau ac ychwanegu ymrwymadau i ddyddiadau ychwanegol. Roedd KM ac EH yn teimlo mai llais y sector, yn hytrach na chynrychiolwyr, oedd aelodau'r Grŵp Llywio. **Cam gweithredu - dywedodd KM y byddai hyn yn cael ei ystyried ac y byddai Cylch Gorchwyl arfaethedig diwygiedig yn cael ei gyflwyno maes o law.**

3. Diweddariad ar yr amserlen ar gyfer datblygu Cynllun Cyflawni i ategu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016

- 3.1 Esboniodd KM mai dogfen ar-lein fyw fydd y Cynllun Cyflawni wedi'i seilio ar dair thema – mynediad i wasanaethau credyd ac ariannol fforddiadwy, mynediad i wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled, a meithrin dealltwriaeth a galluogrwydd ariannol – a gaiff ei fonitro a'i diweddarau bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn ddilys a chywir. Rhoddodd amlinelliad o strwythur y ddogfen arfaethedig, a dywedodd y byddai'n seiliedig ar enghraifft debyg i'r Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor.
- 3.2 Rhoddodd KM drosolwg o'r Cysylltiadau â Strategaeth Galluogrwydd Ariannol Cymru y Gwasanaeth Cyngori Ariannol a sut y bydd yn cael ei chynnwys yn y gwaith hwn. Eglurodd y byddwn ni'n gweithio gyda Grŵp Llywio'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol er mwyn penderfynu ar gamau sy'n berthnasol i Gymru. Mae Amelia John yn aelod o Fwrdd Galluogrwydd Ariannol y DU erbyn hyn. Gofynnodd i EH a JA esbonio sut y bydd eu meysydd nhw, sef Cynlluniau Gweithredu Cyngor Gwybodaeth a'r Strategaeth Undebau Credyd, yn cynnwys cysylltiadau thematig perthnasol i bartneriaid a

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodyn Cyfarfod – 14 Hydref 2016, Merthyr Tudful

sefydliadau perthnasol, er mwyn sicrhau bod pawb yn cydweithio ac yn darparu camau gweithredu cyson. Roedd pawb yn cytuno y dylai cynhwysiant digidol fod yn rhan o'r tair thema. Bydd AJ yn sicrhau bod cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud â'r agenda Cynhwysiant Digidol yng Nghymru hefyd. Rhoddodd HF y wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni mewn perthynas ag adolygiad thematig Estyn yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae cynllun prosiect Estyn wedi dod i law, a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2017. Bydd casgliadau'r adolygiad hwnnw'n cael eu hystyried yn rhan o'r meysydd dysgu a phrofiad newydd ar gyfer mathemateg a rhifedd. Dywedodd KM y bydd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 yn parhau'n ddogfen yn ymwneud â chyfnod penodol ac y bydd y Cynllun Cyflawni yn ddogfen 'fyw' er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y maes cynhwysiant ariannol.

- 3.3 Esboniodd KM fod swyddogion eisoes wedi cyfarfod â chydweithwyr o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi monitro a gwerthuso, er mwyn trafod gwerthusiadau cyfredol/diweddar o sawl rhaglen/menter a fydd yn cyfrannu at y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol. Bydd nifer o'r camau hyn yn berthnasol i raglenni/mentrau sy'n cael eu rhedeg gan rannau eraill o Lywodraeth Cymru neu sefydliadau eraill, a fydd yn destun monitro a gwerthuso o ryw fath eu hunain. Yn gyffredinol, roedd aelodau'r Grŵp Llywio o'r farn bod cynnwys llawer o waith da yn cael ei gyflawni yn y maes cynhwysiant ariannol y gellir cyfeirio ato yn y Cynllun Cyflawni.
- 3.4 Dywedodd KM fod asesiadau effaith yn ymwneud â'r Gymraeg a Chydraddoldeb wedi'u cyhoeddi mewn dogfen ddrafft fel rhan o'r ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2015. Paratowyd fersiynau diwygiedig o'r asesiadau effaith hyn ac asesiad effaith Hawliau Plant er mwyn cyhoeddi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ym mis Mawrth 2016. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni, rhoddir ystyriaeth i ddiweddarau'r asesiadau effaith i'w cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Cyflawni.

4. Cloi a'r cyfarfod nesaf

- 4.1 Diolchodd AJ i aelodau'r Grŵp Llywio am eu sylwadau adeiladol, a dywedodd mai dydd Llun 28 Tachwedd fydd dyddiad y cyfarfod nesaf – y manylion i'w dosbarthu.

Jan Morgan

17 Hydref 2016